

Y Tylwyth Teg

- i. Coblynnod a phwcaod wedi'u creu gan gyfranogwyr ysgol goedwig Global Gardens, Caerdydd
- ii. Pwca pren wedi'i greu gan un o gyfranogwyr ysgol goedwig Global Gardens, Caerdydd
- iii. *Oli* gan Liselotte Eriksson

Nodyn: Pwca pren 92 oed yw Oli Branchlight. Mae ganddo wallt brown tywyll, croen golau gydag awgrym o liw copr, a llygaid lliw cyll sydd wastad fel pe baen nhw'n gwybod rhywbeth doniol nad wyt ti'n ei wybod. Cafodd ei eni mewn gwerysll bychan i bwcaod pren ym mherfeddion Wight Wood.

i.



ii.



iii.



Tylwyth Teg (Little Folk)

- i. Pixies and elves made by participants of Global Gardens forest school, Cardiff
- ii. Wood elf made by a participant of Global Gardens forest school, Cardiff
- iii. *Oli* by Liselotte Eriksson

Note: Oli Branchlight is a 92 year old wood elf with messy, dark brown hair, pale skin with a slight copper overtone, and hazel eyes that always seem to know something funny that you don't. He was born in a small wood elf settlement deep in the Wight Wood.

i.



ii.



iii.



Tylwyth Teg (Little Folk)

This year, Wales Millennium Centre invites you to contribute a little folk or tylwyth teg to their Enchanted window display, visible to all during the festive season.

Welsh tylwydd teg translates as fair folk or little folk - but little folk don't only live in Wales, they're known in many parts of the world and probably live secretly all over the place. They especially like to live in nature but sometimes choose to share a home with the big folk... ordinary people like you and me.

This activity pack offers a chance to celebrate little folk everywhere. Here are some instructions to help you make yours. The pack includes two wooden dolly pegs so that you can make one for yourself and one for the festive installation at Wales Millennium Centre.

You can make your little folk using pretty much any small, found objects. Next time you go for a walk, you may want to look out for some nice leaves for clothing or a good twig, useful for making arms and legs. Another option is to draw a pattern on paper and use this to cut out clothing.

Activity pack contents:

- 2 wooden dolly pegs
- 2 lollipop sticks
- Fabric swatches
- Coloured foil
- 2 felt-tip pens
- String
- Scissors

Optional extras:

- Leaves
- Twigs
- Kitchen foil
- Design a pattern on paper
- Glue

Step by step...

1. Lay your materials out in front of you.
2. Draw a face on your wooden peg.
3. Place the lollipop stick (or twig) just under the head. This will become the arms.
4. Use the string to tie the arms in place. Try to make a cross with the string and tie a tight knot to hold the lollipop stick securely. This can be tricky so you may need help - and if it's too tricky, don't worry, just tie on some wings later instead. Wings are easier to tie on and are better than arms anyway.



5. Choose some clothing for your little folk. This can be anything... the fabric found in the activity pack; leaves from the park; foil you've found in your home or paper you've coloured with a design.
6. If the clothing looks too big, use scissors to carefully cut to a smaller size. If this is tricky, ask for help.
7. The quickest way to secure the clothing is to tie it using the string. Alternatively, you may want to use glue - remember to let it dry fully before handling again.
8. Some little folk have distinguishing features like wings, a hat, a crown or a beard. Now is the time to add any extra features.

Well done! You are now the proud creator of a little folk

Y Tylwyth Teg

Eleni, mae Canolfan Mileniwm Cymru yn dy wahodd i gyfrannu tylwythen deg at arddangosfa ffenest hudolus y bydd modd i bawb ei gweld yn ystod tymor yr ŵyl.

Ond nid yng Nghymru'n unig y mae'r tylwyth teg i'w cael. Mae creaduriaid tebyg mewn sawl rhan o'r byd, ac mae'n debygol eu bod nhw'n byw'n ddirgel ym mhob man. Maen nhw'n arbennig o hoff o fyw ym myd natur, ond weithiau'n dewis rhannu cartref gyda'r bobl fawr – y bobl gyffredin fel ti a fi.

Mae'r pecyn gweithgaredd hwn yn gyfle i ddathlu'r tylwyth teg sydd ym mhob man. Dyma rai cyfarwyddiadau i dy helpu i greu dy dylwythen deg di. Mae'r pecyn yn cynnwys dau beg doli pren er mwyn iti greu un i ti dy hun ac un ar gyfer yr arddangosfa Nadoligaidd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

Fe elli di greu dy dylwythen deg gan ddefnyddio unrhyw wrthrychau bach y doi di o hyd iddyn nhw. Y tro nesaf byddi di'n mynd am dro, cadwa lygad am ddail prydfarth i greu dillad, neu frigau da i greu breichiau a choesau. Opsiwn arall yw creu patrwm ar bapur a defnyddio hwn i dorri'r dillad.

Cynnwys y pecyn gweithgaredd:

2 beg doli pren
2 ffon lolipop
Samplau ffabrig
Ffoil lliw
2 bin ffelt
Llinyn
Siswrn

Pethau ychwanegol opsiynol:

Dail
Brigau
Ffoil cegin
Patrwm wedi'i ddylunio ar bapur
Glud

Cam wrth gam...

1. Gosoda'r deunyddiau o dy flaen. Tynna lun wyneb ar dy beg pren Rho'r ffyn lolipop (neu frigau) fymryn o dan y pen. Dyma fydd y breichiau.

2. Defnyddia llinyn i glymu'r breichiau'n sownd. Ceisia greu croes gyda'r llinyn a thynnu cwlwm tynn i ddal y ffyn lolipop yn sownd. Fe all hyn fod yn anodd, felly efallai y bydd angen help arnat ti. Os bydd hyn yn rhy anodd, paid â phoeni – fe elli di glymu adenydd yn nes ymlaen yn lle hynny. Mae adenydd yn haws i'w clymu ac yn well na breichiau beth bynnag.



3. Dewisa rywffaint o ddillad i dy dylwythen deg. Fe all y rhain fod yn unrhyw beth... y ffabrig yn dy becyn gweithgaredd; dail o'r parc; ffoil o gartref; neu bapur rwyd ti wedi'i liwio â dyluniad. Os yw'r dillad yn edrych yn rhy fawr, defnyddia siswrn yn ofalus i'w torri'n llai. Os bydd hyn yn anodd, gofynna am help.

4. Y ffordd gyflymaf o roi'r dillad yn sownd yw eu clymu gyda'r llinyn. Neu fe allet ti ddefnyddio glud. Cofia adael iddo sychu'n iawn cyn cario ymlaen.

5. Mae gan rai tylwyth teg nodweddion amlwg fel adenydd, het, coron neu farf. Dyma dy gyfle i ychwanegu rhai o'r pethau hyn.

Da iawn ti! Rwyd ti nawr wedi creu tylwythen deg.

Y Tylwyth Teg

Tylwythen deg

Byddwn ni'n meddwl am y tylwyth teg fel creaduriaid bach, dirgel. Bydd ganddyn nhw adenydd a dillad sidanaidd, prydferth. Maen nhw'n gallu gwireddu dymuniadau, neu fwrw melltith da a drwg ar bobl. Yn wahanol i angylion, bydd tylwythen deg wastad yn gafael mewn ffon hud ar ben coeden Nadolig. Dim ond dymuniadau da y bydd tylwyth teg y Nadolig yn eu rhoi.

Coblyn

Yn ôl y sôn, mae golwg ar goblynnod fel pe baen nhw'n byw am byth. Maen nhw'n edrych yn afluniaidd ond yn rhyfedd o hardd. Fe ddywedir yn aml bod ganddyn nhw lygaid gwyrdd ar ogwydd, a chlustiau pigfain – ond does neb yn siŵr a oes gan goblynnod adenydd neu beidio. Bydd coblynnod sy'n byw yn y goedwig yn cysegru'r tir. Mae'r creaduriaid gwyllt eraill yn credu eu bod nhw'n hudolus, a does arnyn nhw ddim eu hofn. Mae coblynnod wrth eu boddau â phobl.

Pwca

Dynion a merched sy'n ymddangos yn ifanc yw pwcaod, a hwythau'n hynod o hardd. Yn aml, ond nid wastad, byddan nhw'n byw mewn coedwigoedd ac o dan y ddaear, neu mewn ogofâu. Weithiau, byddan nhw'n byw mewn ffynhonnau a nentydd. Mae sôn eu bod nhw'n gallu byw am byth, a bod ganddyn nhw bwerau hud a lledrith. Fe allan nhw helpu gyda gwaith o amgylch y tŷ, neu greu teganau i blant.

Bwbach

Ystyr y gair bwbach yw rhywbeth sy'n rhoi mymryn o fraw i rywun. Creadur arallfydol Cymreig yw'r bwbach. Fe all helpu o amgylch y tŷ, neu fe all fod yn ddireidus hefyd. Yn ôl y sôn, fe arferai bwbachod fyw gyda theluoedd yng Nghymru gan roi help llaw o amgylch y cartref, a chael powlen o hufen am eu gwaith. Byddai'r teulu'n gadael powlen o hufen ar y bwrdd cyn amser gwely. Wrth godi yn y bore, byddai'r hufen wedi diflannu a holl dasgau'r tŷ wedi cael eu gwneud!

Yumboes

Mae'r Yumboes neu'r Bakhna Rakhna (pobl dda) yn byw yn Senegal yng Ngorllewin Affrica. Fin nos, byddan nhw'n dod allan i ddawnsio yng ngolau'r lloer ac yna'n mwynhau gwledd ar fwrdd mawr, gan wahodd pobl eraill i ymuno â nhw.



Yumboes, The Fairies by Ken Wilson-Max

Kijimuna

Mae'r Kijimuna weithiau'n ymddangos mewn manga (comics) yn Japan ac maen nhw'n fath o **Yokai**. Maen nhw'n cael eu gweld fel ysbrydion coed, gan eu bod nhw'n byw yn y coed banian ar un o ynysoedd Japan. Mae'u gwalltiau nhw'n goch, a'u brestiau gan amlaf yn noeth. Byddan nhw'n gwisgo sgert a band gwallt wedi'i greu o ddail. Mae'r Kijimuna yn nofwyr heb eu hail, ac maen nhw'n hoffi dal pysgod i swper. Maen nhw'n arbennig o hoff o fwyta llygaid pysgod.

Ellyllon

Mae ellyll yn derm cyffredinol sy'n gallu perthyn i bob math o greaduriaid bychan, dirgel, gan gynnwys tylwyth teg, coblynnod a phwcaod. Mae ellyllon yn fychan ac fe allan nhw fod o bob lliw a llun, ond dydyn nhw ddim yn gwbl gorfforol... maen nhw'n debycach i dduwiau lleol nag i anifeiliaid.

Tylwyth Teg (Little Folk)

Fairy/faery

We think of faeries as being small, delicate creatures with wings and beautiful gossamer clothing. They can grant wishes and cast good or bad spells. Unlike an angel, a fairy always holds a wand when seen on top of a Christmas tree. A Christmas fairy will only cast good wishes.

Pixie

Pixies are said to be nearly ageless with a distorted and strangely beautiful appearance. Often described as having green slanted eyes and pointed ears — no one is sure if pixies have wings. Pixies who live in the forest bless the land. Other wild creatures find them alluring and non-threatening. They love humans.

Elf

Elves are seemingly youthful men and women of great beauty. They often but not always live in forests and underground places or caves, or in wells and springs. They are known to be long-lived or immortal with magical powers. They may help with household chores or making toys for children.

Bwbach

Bwbach roughly means little scare. A bwbach is a Welsh supernatural creature who can be helpful or mischievous in the household. Legend has it that bwbach used to live with families in Wales and do good turns and chores around the home in return for a bowl of cream. The family would leave out a bowl of cream before bed and come down to find the cream all gone and household tasks completed!

Yumboes

Yumboes or Bakhna Rakhna (good people) live in Senegal, West Africa. As night falls, they come out to dance in the silvery moonlight then enjoy a feast laid out on a large table, inviting others to join them.



Yumboes, The Fairies by Ken Wilson-Max

Kijimuna

Kijimuna are sometimes featured in Japanese manga and are a type of **Yokai**. They are thought of as wood spirits because they live in the banyan trees found on an island belonging to Japan. They have red hair and usually a bare chest, wearing a skirt and headband made of leaves. Kijimuna are excellent swimmers and like to catch fish for their supper. Their favourite treat to eat is fish eyes.

Sprite

A sprite is a generic term that can cover all sorts of small, elusive supernatural beings, including faeries, pixies and elves. Sprites are small and can be any shape but are not purely physical... they are more similar to local deities than animals.